11.02.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Dylanwad y cyfandir ar ddrama diweddaraf S4C

I'r rhai sydd heb diwnio mewn eto i ddrama newydd S4C, **Fflam**, stori gyfoes yw hi sy'n ffocysu ar y thema o alar, rhamant ac angerdd.

Ond, pam tybed fod miloedd o bobl yn Nhwrci yn awyddus i'w gwylio? Un rheswm a rhywbeth sy'n gwneud y gyfres yn hollol unigryw yw bod yr iaith Dwrceg yn cael ei siarad ynddi. Yn ogystal mae dau actor enwog o'r wlad, Memet Ali Alabora a Pinar Ogun, yn serennu yn y ddrama.

"Mae pobl Twrci yn gyffrous iawn i wylio. Yn rhyfeddol, nid oes gan y ddwy iaith hanes fel hyn o'r blaen, mae gan y mwyafrif o ieithoedd eraill rywfaint o berthynas â'r Gymraeg, ond nid Twrceg. Rwy'n credu ei fod yn gyffrous iawn," meddai Memet Ali, sy'n chwarae rhan Deniz, cariad y cogydd Noni (Gwyneth Keyworth).

Mae Memet Ali yn byw yng Nghymru ers saith mlynedd bellach.

"Rwy'n angerddol iawn am Gymru. Os oes rhywun yn gofyn i mi o ble dwi'n dod, rydw i'n dweud, Cymru. Ro'n i'n dod o Dwrci, ond nawr rwy'n dod o Gymru.

"Mae gen i a Deniz ambell beth yn gyffredin - mae'r ddau ohonom yn cychwyn bywyd newydd yng Nghymru a hiraethu am ein teulu yn Nhwrci. Ond i Deniz, Noni yw ei fywyd. Mae yn ei haddoli hi ac mae hi'n rhan fawr o pam y mae ef wedi dysgu Cymraeg.

"I mi, beth wnaeth fy ysgogi i ddysgu mwy na dim oedd fy angerdd am y wlad. A hefyd, mae gen i gymaint o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg - byddai wedi bod yn hurt peidio!

"Y peth gwych am Gymru yw, mae pawb yn adnabod ei gilydd. Ar ôl tua phum mlynedd, mae'n debyg eich bod chi'n un person i ffwrdd o adnabod pawb. Mae'n anhygoel ac yn creu'r teimlad arbennig yna o berthyn. Yn fy holl amser yma, dydw i erioed wedi teimlo fel dieithryn."

Bydd ambell i olygfa lle mae Deniz yn siarad gyda'i chwaer Ekin (Pinar Ogun) mewn Twrceg, gydag isdeitlau Cymraeg.  A diolch i Pinar, sydd hefyd wedi ymddangos yn Un Bore Mercher, mae'r dylanwad cyfandirol yn treiddio'n bellach fyth.

Casi Wyn, sy’n egluro mwy; “Gwnaeth Vox Pictures gysylltu gyda Sion Trefor a finnau, i greu ‘*theme tune’* ar gyfer Fflam. Datblygodd hynny i gyfansoddi sgôr gwreiddiol cyfan.

“Er ein bod gyda’r sgriptiau a fersiynau cynnar o’r penodau cyntaf, ro ni hefyd yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o gerddoriaeth a diwylliant Twrci.

“Felly, mi wnes i gysylltu gydag Pinar, a daeth hi yn ôl gyda rhestr andros o hir o ganeuon pop a gwerin, a rhai alawon traddodiadol.

“Mae ‘na olygfa ble mae Memet ar ben to yn canu hen alaw Twrceg. Mae’r ddau gymeriad, a’r actorion, yn mynd trwy rywbeth trawmatig a hiraethus dros ben felly roedd angen bod yn sensitif iawn wrth gyfansoddi, gadael i’r gerddoriaeth gefnogi ac annog y teimlad sy’n bodoli’n barod yn y stori.

“Mae o mor gyffrous cael y ddau ddiwylliant ochr yn ochr. Mewn cyfnod eithaf tywyll i’r gymuned greadigol, mae hefyd yn gyffrous iawn fod cwmnïau allan yna sy’n cydnabod talent o fewn Cymru ac yn dangos hyder.”

Felly ar nosweithiau oer a thywyll Chwefror, bydd Fflam yn cynnig blas o’r canoldir i gynhesu’r galon.

**Fflam**
**Nos Fercher, 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Vox Pictures ar gyfer S4C**

S4C

11.02.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# S4C's latest drama influenced by the Mediterranean

For those who haven't yet tuned in to S4C's new drama, **Fflam**, it's a contemporary story that revolves around the themes of grief, romance and passion.

But, why are thousands of people in Turkey waiting to watch? One reason, and something that makes the series completely unique is that the Turkish language is spoken alongside Welsh. Another, is that two renowned actors from the country, Memet Ali Alabora and Pinar Ogun, play lead characters.

"The people of Turkey are very excited to watch **Fflam**. Surprisingly, there's no history like this between the two languages. Most other languages have some relationship with Welsh, but not Turkish. I think it's really exciting," said Memet Ali who plays Deniz, the boyfriend of chef Noni (Gwyneth Keyworth).

Memet Ali has lived in Wales for seven years now.

"I'm very passionate about Wales. If anyone asks me where I'm from, I say 'Wales'. I was from Turkey, but now I'm from Wales.

"Deniz and I have a few things in common - we are both making a fresh start in Wales, far away from friends and family in Turkey. But for Deniz, Noni is his life. He adores her and she is the main reason he has learned Welsh.

"What motivated me to learn more than anything was my passion for the country. And also, I have so many friends who speak Welsh - it would have been absurd not to!

"The great thing about Wales is, everyone knows each other. After about five years, you are probably one person away from knowing everyone. It's amazing, it creates that special feeling of belonging. In all my time here, I've never felt like a stranger or that I don't belong."

There will be a few scenes where Deniz talks to his sister Ekin (Pinar Ogun) in Turkish, with Welsh subtitles. And thanks to Pinar, who also appeared in Un Bore Mercher / Keeping Faith, the continental influence permeates even further.

Casi Wyn explains more; "Vox Pictures asked Sion Trefor and I to create a theme tune for Fflam. That evolved to composing an entire original score.

“Although we had the scripts and early versions of the first episodes, we were also keen to get a better understanding of Turkish music and culture. So I got in touch with Pinar, and she came back with a long list of Turkish pop and folk songs, as well as some traditional tunes.

“There's a scene where Memet is on top of a roof singing an old Turkish melody. Both characters, as well as the actors, are going through something traumatic so it was important to keep this in mind while composing. The music needs to support and complement the feeling that already exists in the story, and not take over.

“It's so exciting to have both cultures featured side by side. In what is quite a dark time for the creative community, it’s also really exciting to know there are companies out there that recognise the talent within Wales and show such confidence.”

So on cold and dark February nights, let **Fflam** bring a heart-warming taste of the Mediterranean into your home.

**Fflam**
**Wednesdays, 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Vox Pictures production for S4C**